

Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Rheoli Cymorthdaliadau

Tachwedd 2021

Cyflwyniad

1. Gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (PDF 112KB) ar y Bil gerbron y Senedd ar 13 Gorffennaf 2021. Ar 14 Medi 2021, cytunodd y Pwyllgor Busnes (PDF 38.5KB), yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(i), i wahodd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i drafod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ac adrodd arno i'r Senedd erbyn 4 Tachwedd 2021. Cymerodd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig dystiolaeth gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ei gyfarfod ar 21 Hydref, cyn cytuno ar yr adroddiad hwn i'r Senedd drwy ohebiaeth.

Cefndir

2. Cyflwynwyd y **Bil Rheoli Cymorthdaliadau** (y Bil) yn Nhŷ'r Cyffredin ar 30 Mehefin 2021, ac mae'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) yn ei noddi. Mae enw hir y Bil yn nodi mai ei ddiben yw gwneud darpariaeth i reoleiddio'r broses o roi cymorthdaliadau drwy ddefnyddio adnoddau cyhoeddus; a dibenion cysylltiedig.

3. Nid yw'r DU bellach yn ddarostyngedig i reolau cymorth gwladwriaethol yr UE, sef cyfundrefn rheoli cymorthdaliadau'r UE ac, ym mis Medi 2020, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bwriad i ddylunio cyfundrefn rheoli cymorthdaliadau domestig newydd sy'n gweddu orau i anghenion y DU, yn cynrychioli gwerth am arian i drethdalwyr y DU, ac yn cydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol.



4. Fel y nodwyd yn **Nodiadau Esboniadol** y Bil, ei ddiben yw gweithredu cyfundrefn rheoli cymorthdaliadau domestig yn y Deyrnas Unedig sy'n adlewyrchu buddiannau strategol y DU ac amgylchiadau cenedlaethol penodol, gan ddarparu fframwaith cyfreithiol lle y mae awdurdodau cyhoeddus yn gwneud penderfyniadau cymorthdaliadau.

5. Mae'r Nodiadau Esboniadol yn esbonio ystyr cymhorthdal:

"where a public authority – for example central, regional or local government – provides support to a business, or other organisation, that gives them an advantage over competitors. This can take the form of a grant, a tax break, a loan or guarantee on favourable terms, or the use of facilities below market price."

Trosolwg o'r Bil

6. Mae'r Bil, fel y'i cyflwynwyd, yn cynnwys 5 Rhan, gyda 92 cymal a thair Atodlen. Mae'r Nodyn Esboniadol yn esbonio nodau'r gyfundrefn newydd arfaethedig a phrif ddarpariaethau'r Bil:

- Mae'r Bil yn nodi saith egwyddor y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus asesu eu cymorthdaliadau arfaethedig yn eu herbyn. Mae'r Bil yn diffinio'r rhain fel yr egwyddorion rheoli cymorthdaliadau. Gall egwyddorion ychwanegol fod yn gymwys i gymorthdaliadau ynni ac amgylcheddol penodol;
- Mae'r Bil yn gwahardd cymorthdaliadau penodol ac yn mynnu mai dim ond pan fodlonir gofynion penodedig y gellir dyfarnu cymorthdaliadau penodol;
- Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i gymorthdaliadau penodol gael eu cyhoeddi ar gronfa ddata;
- Eithrio cymorthdaliadau penodol rhag rhai neu bob un o'r gofynion hyn;
- Sefydlu **Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau** newydd yn yr **Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (ACM)**, a fydd yn monitro'r gyfundrefn ac yn adrodd arni ac yn adrodd ar gymorthdaliadau a chynlluniau penodol cyn ac ar ôl eu dyfarnu neu eu gwneud;
- Gwneud darpariaeth i'r **Tribiwnlys Apelau Cystadlu (TAC)** wrando ceisiadau i adolygu penderfyniadau cymorthdaliadau ac i orchymyn adferiad mewn achosion penodol, gan osod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i roi gwybodaeth cyn gweithredu

ar gais parti â diddordeb, a rhoi hawl i awdurdodau cyhoeddus adfer cymorthdaliadau sy'n cael eu camddefnyddio.

7. Hefyd, mae'r Bil yn darparu ar gyfer mesurau a fydd yn cefnogi'r DU i barhau i gydymffurfio â'i rhwymedigaethau rhyngwladol dan Gytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Gymorthdaliadau a Mesurau Gwrthbwysol, y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE, a chytundebau masnach rydd eraill. .

Y darpariaethau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

8. Ceir crynodeb isod o'r darpariaethau y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer.

9. Mae Atodiad A ar dudalen 38 o'r Nodiadau Esboniadol a baratowyd gan BEIS yn nodi'r darpariaethau y mae Llywodraeth y DU o'r farn bod angen cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar eu cyfer. Oni nodir yn wahanol isod, mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn cytuno bod angen cydsyniad y Senedd mewn cysylltiad â'r darpariaethau. Nid yw'n glir a yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 41 a 42 o'r Bil. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi'n benodol bod angen cydsyniad ar gyfer cymalau 36-40 ond, yn ddiweddarach, mae'n darparu sylwadau ar gymalau 41 a 42.

10. Mae'r Bil yn gymwys i Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae Llywodraeth y DU am sefydlu dull ledled y DU o reoli cymhortdaliadau. Er bod rheoli cymorthdaliadau'n fater a gedwir yn ôl, mae'n effeithio ar ddatblygu economaidd, sy'n fater datganoledig. Felly, mae Llywodraeth Cymru wedi cymhwyso'r prawf diben datganoledig fel sy'n ofynnol yn ôl Rheol Sefydlog 29.1(i), h.y. a oes gan y ddarpariaeth ddiben datganoledig.

RHAN 1 – TROSOLWG A PHRIF DDEHONGLIAD

11. Mae Rhan 1 (cymalau 1 i 11) yn nodi diffiniadau o dermau allweddol a ddefnyddir yn y Bil.

12. Mae Cymal 10 o Ran 1 yn gwahaniaethu rhwng nifer o gategoriâu o gymorthdaliadau yn y Bil. Mae hyn yn cynnwys y gwahaniaeth rhwng 'cynlluniau cymorthdaliadau' a 'chynlluniau cymorthdaliadau syml'. Bwriad cynlluniau cymorthdaliadau syml yw caniatáu i Lywodraeth y DU wneud darpariaethau i ganiatáu i awdurdodau cyhoeddus roi cymorthdaliadau risg is yn gyflymach ac yn haws, heb fod angen asesu cydymffurfedd â'r egwyddorion rheoli cymorthdaliadau yn y Bil. Dim ond Llywodraeth y DU all wneud cynlluniau cymorthdaliadau syml, ond gallant gael eu defnyddio gan unrhyw awdurdod cyhoeddus sy'n cydymffurfio â'i bamedrau.

13. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cytuno bod angen cydsyniad y Senedd mewn perthynas â chymalau 1-11 o'r Bil fel y'i drafftwyd ar hyn o bryd.

RHAN 2 – GOFYNION RHEOLI CYMORTHDALIADAU

14. Mae Rhan 2 o'r Bil yn nodi'r egwyddorion sy'n sail i'r gyfundrefn rheoli cymorthdaliadau, gan gynnwys saith prif egwyddor (a nodir yn Atodlen 1 i'r Bil) a naw egwyddor ychwanegol o ran ynni a'r amgylchedd. Mae cymal 12 yn darparu i awdurdod cyhoeddus ystyried yr egwyddorion rheoli cymorthdaliadau cyn rhoi cymhorthdal neu wneud cynllun cymorthdaliadau, a pheidio â rhoi cymhorthdal na gwneud cynllun cymorthdaliadau oni bai ei fod yn gyson â'r egwyddorion hynny.

15. Mae cymal 13 yn nodi bod yn rhaid i gymorthdaliadau a roddir mewn perthynas ag ynni a'r amgylchedd, a chynlluniau a wneir sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer rhoi'r cymorthdaliadau hyn, ystyried yr egwyddorion ynni ac amgylchedd yn Atodlen 2. Ni ddylid rhoi cymorthdaliadau, ac ni ddylid gwneud cynlluniau, oni bai bod yr awdurdod cyhoeddus o'r farn eu bod yn gyson â'r egwyddorion.

16. Mae cymal 14 yn cyflwyno Pennod 2 o Ran 2, yn nodi ei fod yn gwahardd rhoi cymorthdaliadau penodol ac yn pennu gofynion ar gyfer cymorthdaliadau eraill.

17. Mae cymalau 15 i 34 yn nodi manylion y darpariaethau ar wahardd cymorthdaliadau a diffiniadau sy'n ymwneud â'r darpariaethau hynny. I grynhoi, mae'r gwaharddiadau'n cynnwys cymhorthdal:

- ar ffurf gwarant o ddyledion neu rwymedigaethau menter os nad oes terfyn ar y ddyled neu'r rhwymedigaethau a warentir, neu os nad oes terfyn ar hyd y warant;
- sy'n dibynnu ar berfformiad allforio sy'n ymwneud â nwyddau neu wasanaethau, oni chydymffurfir â'r gofynion a restrir yn y cymal;
- sy'n dibynnu ar ddefnyddio nwyddau neu wasanaethau domestig yn hytrach na rhai a fewnforir, oni bai bod yr eithriadau yng nghymal 17 yn gymwys;
- a roddir i fenter sy'n ddarostyngedig i amod bod y fenter yn adleoli ei holl weithgareddau economaidd neu rai ohonynt, ac na fyddai'r adleoli'n digwydd oni bai am y cymhorthdal;
- ar gyfer achub neu ailstrwythuro menter sydd mewn cyflwr gwael neu'n ansolfent, cymerwr adneuon neu gwmni yswiriant, neu i gefnogi darpariaeth hylifedd ar gyfer menter, cymerwr adneuon neu gwmni yswiriant o'r fath, oni fodlonir yr amodau mewn cymalau yn y rhan honno o'r Bil;

- i yswirwyr sy'n darparu yswiriant credyd allforio oni bai bod yr yswiriant hwn ar gyfer risg y gellir ei marchnata naill ai'n cael ei ddarparu ar delerau masnachol neu nad yw o fudd uniongyrchol neu anuniongyrchol i fusnes yswiriant credyd allforio yr yswiriwr;
- i gwmni hedfan ar gyfer gweithredu llwybr oni fodlonir amod yng nghymal 28;
- o dan gymal 29, dim ond os yw'n gwneud hynny mewn modd tryloyw y caiff awdurdod cyhoeddus ddyfarnu cymhorthdal ar gyfer darparu SPEI (Gwasanaeth o Fudd Economaidd y Cyhoedd), a'i fod yn fodlon bod gwerth y cymhorthdal wedi'i gyfyngu i'r hyn sy'n angenrheidiol er mwyn darparu'r gwasanaeth;
- i'r graddau y mae'r cynllun cymorthdaliadau'n darparu ar gyfer cymhorthdal gwaharddedig neu nad yw fel arall yn bodloni'r gofynion perthnasol y mae'r Bil yn darparu ar eu cyfer;
- a roddir neu a wneir dan yr amgylchiadau a ganlyn:
 - dylai cais atgyfeiriad gorfodol fod wedi'i wneud i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ("ACM"), ond ni chafodd ei wneud; neu
 - cyflwynwyd cais atgyfeiriad gorfodol ond nid arhosodd yr awdurdod cyhoeddus i'r broses ddod i ben cyn rhoi'r cymhorthdal neu wneud y cynllun.

18. Mae Pennod 3 o Ran 2 yn ymwneud â mesurau tryloywder sy'n nodi gofyniad ar gyfer cronfa ddata cymorthdaliadau sydd ar gael i'r cyhoedd. Mae cymal 33 yn gosod dyletswydd ar awdurdod cyhoeddus i wneud cofnod yn y gronfa ddata cymorthdaliadau mewn perthynas â chymhorthdal neu gynllun cymorthdaliadau y mae'n ei wneud.

19. Barn Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yw bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer Pennod 1 (cymalau 12-13), Pennod 2 (cymalau 14-31), a chymal 33 o'r Bil, ac mae'r holl bartion yn cytuno nad oes angen cydsyniad ar gyfer cymalau 32 na 34.

RHAN 3 – EITHRIADAU

20. Mae Rhan 3 o'r Bil yn nodi mathau penodol o gymorthdaliadau sydd wedi'u heithrio o'r gofynion rheoli cymorthdaliadau yn Rhan 2. Mae'n darparu ar gyfer achosion lle nad yw'r gofynion rheoli cymorthdaliadau'n gymwys i roi cymhorthdal. I grynhoi, mae'r rhain yn cynnwys:

- **Cymorth ariannol lleiaf posibl** - darperir y cymorthdaliadau hyn gan awdurdodau cyhoeddus yr ystyrir eu bod yn risg isel heb fawr o effaith ar gystadleuaeth a

masnach ac â gwerth dan drothwy £315,000 dros dair blynedd (gweler cymalau 36 a 37); a

- **Gwasanaethau o Fudd Economaidd y Cyhoedd (SPEI)** - gwasanaethau cyhoeddus na fyddent yn cael eu cyflenwi (neu na fyddent yn cael eu darparu dan yr amodau gofynnol) heb ryw fath o ymyriad cyhoeddus, ac sydd o bwysigrwydd arbennig i gymdeithas. Mae enghreifftiau o SPEI yn cynnwys tai cymdeithasol neu wasanaethau trafndiaeth gyhoeddus wledig. Nid oes rhaid i gymorthdaliadau a roddir drwy'r eithriad gymhwyso'r gofynion rheoli cymorthdaliadau os yw cyfanswm y cymorth ariannol lleiaf posibl a SPEI a geir gan y buddiolwr arfaethedig yn llai na £725,000 dros dair blwyddyn ariannol. (Cymalau 38 a 39)

21. Mae Cymal 40 yn darparu, yn achos uno a chaffael cwmnïau, y dylid ystyried yr holl gymorthdaliadau cymorth ariannol lleiaf posibl a SPEI a ddyfarnwyd cyn uno neu gaffael y cwmnïau.

22. Mae cymal 41 yn darparu eithriadau o'r ddyletswydd i lanlwytho gwybodaeth i'r gronfa ddata cymorthdaliadau.

Is-ddeddfwriaeth i ddiwygio trothwyon gwerth ar gyfer cymorth ariannol

23. Mae cymal 42 yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud is-ddeddfwriaeth i wneud y canlynol:

- a) diwygio'r trothwyon gwerth ar gyfer yr eithriadau 'cymorth ariannol lleiaf posibl' a 'chymorth SPEI', yn ogystal â'r eithriad tryloywder ar gyfer cymorth SPEI;
- b) darparu ar gyfer trothwy is ar gyfer yr eithriadau 'cymorth ariannol lleiaf posibl' a 'chymorth SPEI', a'r eithriad tryloywder ar gyfer cymorth SPEI, ar gyfer sectorau penodol.

Cymorthdaliadau i ddigolledu ar gyfer difrod a achosir gan 'drychineb naturiol', neu 'argyfwng economaidd cenedlaethol neu fyd-eang'

24. Mae cymal 43 yn nodi bod cymorthdaliadau a roddir i ddigolledu ar gyfer difrod a achosir gan drychineb naturiol neu amgylchiadau eithriadol eraill wedi'u heithrio rhag cydymffurfio â'r gofynion rheoli cymorthdaliadau. Fodd bynnag, nid yw cymorthdaliadau o'r fath wedi'u heithrio o ofynion tryloywder y gyfundrefn.

25. Mae cymal 44 yn darparu nad yw cymorthdaliadau a roddir mewn ymateb i argyfwng economaidd cenedlaethol neu fyd-eang yn ddarostyngedig i'r darpariaethau ar

gymorthdaliadau gwaharddedig a chyfyngedig yn y Bil. Mae Nodiadau Esboniadol y Bil yn nodi'r canlynol:

(...) the use of this exemption is restricted in that it can only be used when the Secretary of State has published a notice stating a particular emergency has occurred and therefore the 'national or global economic emergency' exemption can be used to remedy that situation. A published notice must be laid in Parliament, and may be withdrawn by the Secretary of State.

26. Mae'r gofyniad i gyhoeddi hysbysiad yn y Senedd hefyd yn ofynnol mewn perthynas â chymorthdaliadau a roddir mewn ymateb i 'drychinebau naturiol ac amgylchiadau eithriadol eraill' yng nghymal 43.

Eithriadau eraill

27. Mae eithriadau eraill y darperir ar eu cyfer yn y Bil yn cynnwys y canlynol:

- rhoi cymhorthdal gan neu ar ran Banc Lloegr wrth geisio cael polisi ariannol (cymal 46);
- rhoi cymhorthdal, neu wneud cynllun cymorthdaliadau, i'r graddau y mae cyfarwyddyd sefydlogrwydd ariannol yn darparu (cymal 47);
- cymorthdaliadau gwaddol (cymal 48);
- mesur treth a ganiateir o dan Erthygl 413 o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu (cymal 49);
- ar gyfer prosiectau cydweithredu rhyngwladol trawsffiniol mawr, oni bai bod cymorthdaliadau o'r fath yn bodloni amod penodol (cymal 50);
- eithrio ynni niwclear o ofynion cymal 13 (cymal 51);

28. Barn Llywodraeth Cymru yw bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 35-40, 43, 44, a 45-51. Nid yw'n eglur o baragraff 19 o Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru, a yw'n credu bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 41 a 42, gan nad yw'r geiriad yn benodol. Mae Llywodraeth y DU o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer pob un o'r cymalau yn Rhan 3 (cymalau 35-51).

RHAN 4 – YR AWDURDOD CYSTADLEUAETH A MARCHNADOEDD (ACM): ATGYFEIRIADAU A SWYDDOGAETHAU

29. Mae cymalau 52-69 yn Rhan 4 o'r Bil yn ymdrin â rôl a swyddogaethau'r ACM mewn perthynas ag atgyfeiriadau ac adrodd ar gymorthdaliadau, a sefydlu Uned Cyngor newydd ar Gymorthdaliadau yn yr ACM. Mae cymal 52 yn ymdrin â gwneud atgyfeiriadau gorfodol cyn dyfarnu i'r ACM. Mewn achosion o'r fath, mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus ofyn am adroddiad gan yr ACM cyn rhoi a) cymhorthdal, neu gynllun cymorthdaliadau, sydd o ddiddordeb arbennig; neu b) cymhorthdal neu gynllun y mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cyfarwyddo'r awdurdod i gyfeirio at yr ACM cyn iddo gael ei roi neu ei wneud.

30. Mae cymal 53 yn gwneud darpariaeth ar gyfer y cyfnod pan fo'n rhaid i'r ACM adrodd ar gymhorthdal neu gynllun sy'n ddarostyngedig i atgyfeiriad gorfodol gan awdurdod cyhoeddus. Mae cymal 54 yn gwneud darpariaethau ar gyfer cyfnod 'callio' y mae'n rhaid iddo fynd heibio cyn y caiff awdurdod cyhoeddus roi cymhorthdal neu wneud cynllun y mae'r ACM wedi cyhoeddi adroddiad arno. Mae cymal 55 yn rhoi pŵer wrth gefn i'r Ysgrifennydd Gwladol gyfarwyddo awdurdod cyhoeddus i wneud cais am adroddiad gan yr ACM, cyn y caiff roi cymhorthdal neu wneud cynllun cymorthdaliadau.

Atgyfeiriadau Gwirfoddol ac Adrodd

31. Mae cymal 56 yn galluogi awdurdodau cyhoeddus i ofyn am adroddiad gan yr ACM ar gymhorthdal neu gynllun budd yn wirfoddol, ac mae cymal 57 yn darparu ar gyfer y cyfnod pan fo'n rhaid i'r ACM adrodd, pan fo'n penderfynu paratoi adroddiad yn dilyn cais o'r fath. Mae cymal 58 yn gwneud darpariaeth ynghylch effaith cyfarwyddyd galw i mewn a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â chymhorthdal neu gynllun budd y mae awdurdod cyhoeddus eisoes wedi'i atgyfeirio'n wirfoddol at yr ACM.

32. Mae cymal 59 yn gwneud darpariaeth ynghylch cynnwys adroddiad ACM i'w lunio ar ôl atgyfeiriad gorfodol neu wirfoddol. Mae cymal 60 yn gwneud darpariaeth ynghylch atgyfeirio cymorthdaliadau neu gynlluniau gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar ôl iddynt gael eu rhoi neu eu gwneud (atgyfeiriad ôl-ddyfarniad). Yn yr achos hwn, mae cymal 61 yn darparu bod yn rhaid i'r ACM gyhoeddi adroddiad ar y cymhorthdal neu'r cynllun cyn diwedd y cyfnod 30 diwrnod gwaith. Mae'r cyfnod 30 diwrnod yn dechrau ar y diwrnod y mae'r awdurdod cyhoeddus yn rhoi'r wybodaeth ofynnol i'r ACM neu'r diwrnod ar ôl y terfyn amser ar gyfer rhoi gwybodaeth o'r fath, pa un bynnag sydd gyntaf. Mae cymal 62 yn gwneud darpariaeth ynghylch cynnwys yr adroddiad y mae'n rhaid i'r ACM ei gyhoeddi yn dilyn atgyfeiriad ôl-ddyfarniad.

Eithriadau

33. Mae cymal 63 yn eithrio cymorthdaliadau a roddir dan gynllun cymorthdaliadau o Bennod 1 o Ran 4. Yn lle hynny, byddai'r cynllun cymorthdaliadau'n destun atgyfeiriad i'r ACM. Mae

cymal 64 yn darparu ar gyfer eithrio cymorthdaliadau a chynlluniau cymorthdaliadau penodol rhag rhai neu bob un o ofynion Pennod 1 o Ran 4.

Gofyniad Adolygiad Cyfnodol

34. Mae cymal 65 yn ei gwneud yn ofynnol i'r ACM gynnal adolygiad cyfnodol o effeithiolrwydd gweithrediad y Bil (pan fydd wedi'i ddeddfu), a'i effaith ar gystadleuaeth a buddsoddiad yn y Deyrnas Unedig. Mae'n rhaid i'r ACM gynnal ei adolygiadau bob pum mlynedd. Mae cymal 66 yn ei gwneud yn ofynnol i adroddiad blynyddol yr ACM gynnwys gwybodaeth benodol am faint a mathau o gymorthdaliadau neu gynlluniau y mae wedi paratoi adroddiad arnynt o dan Bennod 1 o Ran 4. Mae cymal 67 yn cymhwyso adrannau 41 i 43 o Ddeddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 at ddibenion cynorthwyo'r ACM i gynnal ei swyddogaethau (monitro ac adrodd ar reoli cymorthdaliadau).

Sefydlu Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau

35. Mae cymal 68 yn ei gwneud yn ofynnol i'r ACM sefydlu pwyllgor o Fwrdd yr ACM a elwir yn Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau. Mae cymal 69 yn galluogi'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau i wneud atgyfeiriad i Gadeirydd yr ACM ar gyfer cyfansoddiad grŵp panel ACM (o dan Atodlen 4 i Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013).

36. Barn Llywodraeth Cymru yw bod angen cydsyniad mewn perthynas â phob cymal yn Rhan 4 (cymalau 52-69), ac mae Llywodraeth y DU o'r farn bod angen cydsyniad mewn perthynas â chymalau 52-62, ond nid mewn perthynas â chymalau 63-69.

RHAN 4 - GORFODI: Y TRIBIWNLYS APELAU CYSTADLU

37. Mae Rhan 5 o'r Bil yn ymdrin â gorfodi gan y Tribiwnlys Apelau Cystadlu (y Tribiwnlys). Mae cymal 70 yn galluogi parti â diddordeb i wneud cais i'r TAC am adolygiad o benderfyniad i roi cymhorthdal neu wneud cynllun cymorthdaliadau. Mae cymal 71 yn diwygio Rheolau Tribiwnlys Apelau Cystadlu 2015, i nodi'r terfynau amser sy'n gymwys mewn perthynas â gwneud cais i'r Tribiwnlys am adolygiad o benderfyniad rheoli cymhorthdal. Mae cymal 72 yn rhoi pwerau i'r Tribiwnlys ddyfarnu mathau penodol o ryddhad yn yr un modd â'r Uchel Lys ar gais am adolygiad barnwrol yng Nghymru a Lloegr, neu Ogledd Iwerddon.

38. Mae cymal 73 yn nodi y dylai pwerau'r tribiwnlys mewn achos yn yr Alban fod yr un peth â phwerau Llys y Sesiwn mewn cais i awdurdodaeth oruchwyliol y Llys hwnnw, ac y dylent gymhwyso'r un egwyddorion ag y byddai Llys y Sesiwn yn eu cymhwyso yn yr achosion hyn.

39. Mae cymal 74 yn rhoi pŵer i'r Tribiwnlys wneud gorchymyn adfer os yw wedi dyfarnu rhyddhad mewn perthynas â phenderfyniad cymhorthdal, a chanfod bod y penderfyniad yn

mynd yn groes i'r gofynion rheoli cymorthdaliadau ym Mhennod 1 a 2 o Ran 2. Mae cymal 75 yn galluogi apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r Tribiwnlys i gael eu gwneud i'r Llys Apêl yng Nghymru a Lloegr neu Ogledd Iwerddon, neu Lys y Sesiwn yn yr Alban. Mae cymal 76 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i roi gwybodaeth benodol i bartïon â diddordeb am gymhorthdal neu gynllun cymorthdaliadau. Mae cymal 77 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â chamddefnyddio cymorthdaliadau ac mae'n rhoi hawl i awdurdodau cyhoeddus adfer cymorthdaliadau a ddefnyddir at ddiben heblaw am y diben a oedd yn sail iddynt.

40. Barn Llywodraeth Cymru yw bod angen cydsyniad y Senedd mewn perthynas â chymalau 70-77, ond mae Llywodraeth y DU o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer cymalau 76 a 77 yn unig, nid ar gyfer cymalau 70-75.

RHAN 6 – AMRYWIOL A CHYFFREDINOL

41. Mae Rhan 6 o'r Bil - Cymalau 78-92 o'r Bil - yn darparu ar gyfer nifer o faterion amrywiol a chyffredinol, gan gynnwys:

- cyflwyno Atodlen 3, sy'n cymhwyso darpariaethau'r Bil i gymorthdaliadau a roddir, neu gynlluniau cymorthdaliadau a wneir, drwy ddeddfwriaeth sylfaenol;
- pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i gyhoeddi canllawiau ar ystyr ac effaith yr egwyddorion rheoli cymorthdaliadau, a pha mor bell y gallant orfodi awdurdodau cyhoeddus i gydymffurfio â'r egwyddorion.
- cadarnhau nad yw dyletswydd na phŵer i ddatgelu gwybodaeth y darperir ar ei chyfer yn y Bil yn diystyru darpariaethau deddfwriaeth diogelu data;
- cadarnhau, oni bai bod addasu gymhorthdal neu gynllun yn addasiad a ganiateir, fod newidiadau iddo i'w hystyried yn gymhorthdal neu'n gynllun newydd ac, fel y cyfryw, y bydd yn rhaid i'r awdurdod cyhoeddus gydymffurfio â'r gofynion rheoli cymorthdaliadau;
- Pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i nodi methodoleg ar gyfer cyfrifo swm cyfatebol arian parod gros gymhorthdal nas darperir mewn termau arian parod. Gallai'r rhain gynnwys benthyciadau neu warantau;
- diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Gwasanaethau Ariannol 2021, mewn perthynas ag ystyr cwmni yswiriant, cymerwr adneuon ac yswiriwr;
- bod gwariant yr eir iddo o dan delerau'r Bil i'w dalu o gyflenwadau a ddarperir gan Senedd y DU;

- materion cais y Goron; pwerau i wneud darpariaeth ganlyniadol drwy reoliad; a materion gweithdrefnol eraill, gan gynnwys ar ddiffiniadau, cychwyn, ac enw byr y Bil.

42. Barn Llywodraeth Cymru yw bod angen cydsyniad y Senedd mewn perthynas â chymalau 78-83, 86, 89, 90 a 91. Mae Llywodraeth y DU o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer cymalau 78 a 79, ond nid ar gyfer cymalau 80-92.

ATODLENNI 1-3

43. Mae Atodlen 1 yn nodi'r saith prif egwyddor rheoli cymorthdaliadau, y mae chwech ohonynt yn deillio o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Mae Egwyddor Cystadleuaeth a Buddsoddiad y DU (Egwyddor F), yn egwyddor ddomestig ychwanegol a gynigiwyd yn y ddogfen ymgynghori.

44. Mae Atodlen 2 yn nodi'r egwyddorion ychwanegol y mae'n rhaid eu cymhwyso, lle y bo'n berthnasol, i gategoriâu penodol o gymorthdaliadau ynni ac amgylcheddol. Mae'r rhain yn deillio o rwymedigaethau rhyngwladol y DU, yn benodol o dan atodiad ENER-2 yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

45. Mae Atodlen 3 yn ymdrin â chymhwyso'r Bil yn achos cymorthdaliadau y mae deddfwriaeth sylfaenol yn darparu ar eu cyfer. Gall hyn ddigwydd pan fydd Deddf yn dyfarnu cymhorthdal neu'n gwneud cynllun ar ei wyneb, neu'n gosod darpariaethau gwariant rhagnodol a fyddai'n gyfystyr â chymhorthdal.

46. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer Atodlenni 1-3 i'r Bil.

Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru mewn Bil gan Senedd y DU

47. Mae paragraff 39 o Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru yn nodi'r rhesymau y gwneir darpariaeth i Gymru yn y Bil hwn:

"Mae rheoli cymorthdaliadau yn fater a gedwir yn ôl dan Atodlen 7A Deddf Llywodraeth Cymru, ac mae'r Bil yn berthnasol i Gymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon. Fodd bynnag, er gwaetha'r ffaith mai mater a gedwir yn ôl ydyw, mae'n effeithio ar fater datblygu economaidd heb ei gadw'n ôl, ac mae effaith y maes a gedwir yn ôl hwn yn codi rhai pryderon. Mae Llywodraeth y DU wedi deddfu yn hyn o beth gan eu bod nhw am gael dull y DU gyfan o reoli cymorthdaliadau."

48. Roedd Llywodraeth flaenorol Cymru wedi dadlau bod rheoli cymorthdaliadau wedi'i ddatganoli gan nad oedd yn fater a gedwir yn ôl dan bennawd o'r Atodlen Materion a Gedwir yn ôl yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006, ond roedd Llywodraeth y DU o'r farn bod cymorth gwladwriaethol yn fater a gedwir yn ôl. Dileodd Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 unrhyw amwysedd drwy gadw'r gallu unigryw i ddeddfu ar gyfer cyfundrefn rheoli cymorthdaliadau yn ôl i Senedd y DU. O ran Cymru, mae adran 52(3) o'r Ddeddf yn gwneud hyn drwy ychwanegu rheoleiddio cymorthdaliadau ystumiol a niweidiol at y rhestr o faterion a gedwir yn ôl yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Safbwynt Llywodraeth Cymru - fel y nodir yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

49. Daw Llywodraeth Cymru i'r casgliad a ganlyn ym Mharagraff 56 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol:

"Fel y nodwyd uchod, mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth yng nghymhwysedd datganoledig y Senedd ac felly, mae angen cydsyniad y Senedd. Fodd bynnag, ni fyddwn mewn sefyllfa i argymhell rhoi cydsyniad oni c[h]aiff y Bil ei ddiwygio i fynd i'r afael â'n pryderon."

50. Yn eich datganiad ysgrifenedig a ddaeth gyda'r Bil, dywedodd Gweinidog yr Economi fod dull Llywodraeth y DU o reoli cymorthdaliadau yn achosi "[p]ryderon difrifol" i Lywodraeth Cymru gan nad oedd yn adlewyrchu materion a nodwyd yn y broses o ddatblygu polisi.

51. Mae Llywodraeth Cymru yn dweud yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol nad yw'n "derbyn y bydd y mesurau a gynigir yn y Bil yn rheoleiddio'r ddarpariaeth o gymorthdaliadau'n ddigonol yn y DU". Mae'n nodi nad yw cynigion y Bil wedi ystyried pryderon Llywodraeth Cymru. Mae cynigion y Bil yn rhai "lefel uchel" ac mae "diffyg manylder ynddynt" i egluro beth y tybir ei fod yn cyfateb i gyfundrefn rheoli cymorthdaliadau arfaethedig y DU, ar gyfer cyrff dyfarnu cymorthdaliadau a busnesau sy'n buddsoddi yn y DU.

52. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn beirniadu rhoi "pwerau eang" i'r Ysgrifennydd Gwladol i lunio'r gyfundrefn yn y dyfodol "heb fawr ddim craffu gan Senedd y DU a dim craffu ar gael i Weinidogion Cymru na'r Senedd". Mae hefyd yn credu y byddai pwerau eraill a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol yn y Bil, pe bai'n cael ei ddeddfu, yn "tanseilio pwerau hirsefydlog y Senedd a Gweinidogion Cymru i weithredu mewn perthynas â materion ym maes cymhwysedd datganoledig fel datblygu economaidd, amaethyddiaeth a physgodfeydd". Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi gwrthwynebiadau Llywodraeth Cymru i

elfennau penodol o'r Bil, a ffyrdd y mae'n credu y gellir diwygio'r Bil i fynd i'r afael â'r pryderon hyn:

- Mae **cymal 10** yn caniatáu i Lywodraeth y DU wneud darpariaethau i ganiatáu i awdurdodau cyhoeddus roi cymorthdaliadau risg is drwy '**gynllun cymorthdaliadau syml**'. Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylid ymestyn y pŵer i Weinidogion Cymru *"o gofio bod y gyfundrefn rheoli cymorthdaliadau yn effeithio ar feysydd cyfrifoldeb datganoledig"*.
- Mae **cymal 18** yn gwahardd cymhorthdal os caiff ei roi i fenter ar yr amod ei bod yn adleoli ei gweithgareddau economaidd i ran arall o'r DU. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi y dylid diffinio paramedrau yn y Bil i atal cymorthdaliadau rhag cael eu herio os bydd **adleoli** yn digwydd sawl blwyddyn ar ôl dyfarnu cymhorthdal.
- Mae **cymal 31** yn nodi, mewn amgylchiadau penodol, fod yn rhaid i awdurdod cyhoeddus ofyn am adroddiad gan yr ACM cyn rhoi cymorthdaliadau neu wneud cynllun cymorthdaliadau. Gelwir hyn yn '**atgyfeiriad gorfodol**', ac rhaid i'r ACM gyhoeddi adroddiad ar y cymhorthdal neu'r cynllun arfaethedig. Ni ellir rhoi cymorthdaliadau tan ar ôl cyfnod callio. Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn i'r Bil *"bennu llwybr i alluogi Gweinidogion Cymru i ddiystyru'r fath ofyniad segur os oes angen digonol am bolisi"*.
- Mae **cymalau 43 a 44** yn cynnwys eithriadau ar gyfer cymorthdaliadau a roddir i ddigolledu difrod a achosir gan **drychinebau naturiol**, digwyddiadau eithriadol eraill neu mewn ymateb i **argyfyngau economaidd cenedlaethol neu fyd-eang**. Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi hysbysiad yn datgan bod yr eithriadau hyn yn gymwys i ddiwyddiad penodol, a'i osod gerbron Senedd y DU. Hoffai Llywodraeth Cymru i hyn gael ei ymestyn i Weinidogion Cymru, neu o leiaf i'r Bil ganiatáu i Weinidogion Cymru ofyn i Lywodraeth y DU wneud datganiad ac y cânt herio os gwrthodir gwneud hynny.
- Mae **Rhan 4** yn amlinellu swyddogaethau'r ACM ac mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn cynnig nifer o ddiwygiadau, gan gynnwys mwy o fanylion am bwerau BEIS yr Ysgrifennydd Gwladol a darparu mecanweithiau i ymestyn bwerau i Weinidogion Cymru neu i herio penderfyniadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol.
- Mae **cymal 79** yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol dros BEIS gyhoeddi canllawiau am y gyfundrefn rheoli cymorthdaliadau, ac mae angen ymgynghori ar ganllawiau

o'r fath. Hoffai Llywodraeth Cymru i'r Bil nodi'r angen am **ymgysylltiad gorfodol** â Gweinidogion datganoledig mewn perthynas â'r canllawiau hyn.

Materion a godwyd gyda'r Gweinidog yn y Pwyllgor

53. Nid oedd Gweinidog yr Economi ar gael i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor cyn y terfyn amser i gyflwyno adroddiad, ond aeth Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, i gyfarfod y Pwyllgor ar 21 Hydref 2021.

Ymgysylltiad Llywodraeth Cymru â Llywodraeth y DU ar y Bil

54. Trafododd y Pwyllgor hyn â'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, i ddeall y gwahaniaethau rhwng barn Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU am gynnwys a chwmpas y Bil.

55. Gofynnwyd i'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol pa ymgysylltiad a fu â Llywodraeth y DU ar y Bil ers ei gyflwyno, a pha welliannau y byddai Llywodraeth Cymru yn eu ceisio i'r Bil wrth iddo fynd drwy San Steffan. Roedd y Gweinidog wedi cyfarfod â Paul Scully, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros BEIS, ar 29 Medi, ac ymgysylltwyd â swyddogion Llywodraeth Cymru bob pythefnos drwy fforwm rheoli cymorthdaliadau gweinyddiaethau datganoledig BEIS. Fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog y canlynol:

"these meetings... have been nothing more than an opportunity for the UK Government to outline their position and their intentions moving forward. They haven't really been meaningful in the sense of opportunities for us to influence the development of the Bill, unfortunately, and that's why we're seeking amendments in a number of areas, and they're areas that I've raised with Paul Scully previously."

56. Cadarnhaodd James Fenwick, uwch-gynghorydd polisi cymorth gwladwriaethol Llywodraeth Cymru y canlynol, er bod y cyfarfodydd wedi bod yn oleuol ynghylch safbwynt y DU, a bod sylwadau wedi'u gwneud ar safbwynt Llywodraeth Cymru:

"...we've yet to see any reflection of those positions appearing in the UK's position in terms of how it was initially developed and how it has evolved into the Bill. We've talked with the UK Government on numerous occasions early on as the Bill was progressing, and yet none of our requests appeared in the amendments to the Bill that the UK has proposed and have been put into the next draft of it."

Diwygiadau i'r Bil y mae Llywodraeth Cymru yn eu ceisio

57. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn ceisio diwygiadau sy'n nodi paramedrau'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer pwerau galw i mewn BEIS (cymalau 55 a 58 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd), gan gyfyngu ar eu defnydd ar gyfer achosion yn y DU lle y gellir canfod gwrthdaro buddiannau:

"...so, for example, a proposed subsidy close to the Wales-England border or where the potential beneficiary is active in an industry that is really heavily represented in England."

58. Roedd Llywodraeth Cymru hefyd yn ceisio pwerau cyfatebol i alw i mewn unrhyw gymhorthdal neu gynllun yn y DU er mwyn i'r Prif Weinidog leihau'r gwahaniaeth pŵer sydd yn y Bil ar hyn o bryd.

59. Ceisir gwelliannau hefyd a fyddai'n caniatáu i Weinidogion Cymru gynnig llwybrau **symlach** mewn meysydd blaenoriaeth (cymal 10 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd). Tynnodd y Gweinidog sylw at y canlynol:

"...currently, this is the exclusive competence of the UK Government, and streamlined routes, of course, are designed to bring added value through lighter touch processes. The lack of ability for Welsh Ministers to take advantage of this process to develop routes under which Welsh schemes could be raised will place Wales, we think, at a disadvantage to England."

Cymhorthdaliadau Amaethyddol a Physgodfeydd

60. Mae'r datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi bod Llywodraeth Cymru a gweinyddiaethau datganoledig eraill am i gymorthdaliadau amaethyddol a physgodfeydd aros y tu allan i gwmpas y gyfundrefn rheoli cymorthdaliadau. Gofynnwyd i'r Gweinidog amlinellu pam ei bod o'r farn na ddylid cynnwys y cymorthdaliadau hyn o fewn cwmpas y gyfundrefn, a sut y dylid eu rheoleiddio. Tynnodd y Gweinidog sylw at y ffaith bod cymorthdaliadau amaethyddol eisoes yn cael eu rheoleiddio drwy broses brofedig drwy gytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar amaethyddiaeth, a dyna pam eu bod wedi'u heithrio o'r rheolaethau cymorthdaliadau cyffredinol o dan y cytundeb masnach a chydweithredu rhwng y DU a'r UE. Dywedodd hefyd y byddai eu cynnwys yn arwain yn anochel at faich gweinyddol ychwanegol a chyfyngiadau posibl ar y Llywodraeth a'r derbynwyr amaethyddol ac na chafwyd esboniad eto o'r sail resymegol y tu ôl i'r dull gweithredu hwn. Aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud y byddai Llywodraeth Cymru'n gwneud y canlynol:

"continue to proactively engage with the UK Government on this to try and continue to ensure that the views of Wales are taken into account during the design of the subsidy control regime."

Manylion polisi sydd ar goll yn y Bil

61. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi pryderon Llywodraeth Cymru nad yw'r Bil yn nodi'n ddigon manwl sut y bydd y gyfundrefn rheoli cymorthdaliadau yn gweithredu. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog pa lefel o fanylder ychwanegol oedd ei hangen i roi digon o eglurder

62. Yn ogystal â phryderon ynghylch rhoi gwybodaeth ac ymgynghori ar is-ddeddfwriaeth a llunio canllawiau ar y cyd â'r gweinyddiaethau datganoledig (gweler yr adran isod), dywedodd y Gweinidog fod enghreifftiau o ychwanegiadau sy'n ofynnol yn cynnwys cyhoeddi'r manylion ar y mathau o gymhorthdal y mae Llywodraeth y DU o'r farn eu bod yn fwy ystumiol ac yna'n fwy tebygol o fod yn gymorthdaliadau o ddiddordeb neu ddiddordeb posibl, neu'n llai ystumiol ac felly'n agored i'r broses llwybrau symlach.

63. Dywedodd y Gweinidog fod gwybodaeth a roddwyd ar drothwyon cychwynnol ar gyfer mathau penodol o gymhorthdal, megis £315,000 dros dair blynedd ar gyfer cymorth ariannol lleiaf posibl, yn ddechrau da. Fodd bynnag, ychwanegodd y canlynol:

"in this particular instance, the UK Government has hinted that the threshold may vary for agriculture and for fisheries, without giving any clarity about what the alternative may be. So, at best we only have part of the picture there."

64. Aeth y Gweinidog ymlaen i esbonio, oherwydd bod y Bil yn cynnwys pwerau rheoleiddio mor eang i'r Ysgrifennydd Gwladol, ei fod hefyd yn creu llawer o ansicrwydd ynghylch sut y gall y gyfundrefn weithredu'n ymarferol a sut y gallai newid gyda threigl amser. Rhoddodd enghraifft cymal 11, sy'n grymuso'r Ysgrifennydd Gwladol i ddiffinio cymhorthdal a chynllun cymorthdaliadau mewn rheoliadau, gan nodi mai cysyniadau allweddol yw'r rhain.

65. Tynnodd y Gweinidog sylw hefyd at y pwerau rheoleiddio yn Rhan 4 o'r Bil sy'n grymuso'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud newidiadau pwysig i'r broses atgyfeirio i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, gan gynnwys y wybodaeth y mae'n rhaid ei rhoi a'r amserlenni ar gyfer adrodd ar atgyfeiriad. Ymhellach, nododd gymal 86, gan roi pwerau diwygio canlyniadol eang i'r Ysgrifennydd Gwladol heb roi pwerau i wneud rheoliadau i Weinidogion Cymru, a dim gofynion cydsynio nac ymgynghori ar sut yr arferir unrhyw un o bwerau gwneud rheoliadau'r Ysgrifennydd Gwladol yn y Bil fel y'i drafftwyd:

"So, clearly there's a real power imbalance, which is at the heart of several of our concerns about the Bill."

66. Mae Institute for Government wedi awgrymu, er mwyn creu cyfundrefn rheoli cymorthdaliadau a gefnogir ym mhob rhan o'r DU, y dylid gwneud rheoliadau sy'n deillio o'r Bil mewn ymgynghoriad â'r gweinyddiaethau datganoledig. Gofynnwyd i'r Gweinidog a fyddai'r dull gweithredu hwn yn lliniaru pryderon am lefel y manylder yn y Bil, a godwyd hyn gyda Llywodraeth y DU, a beth fu'r ymateb.

67. Dywedodd y Gweinidog y canlynol:

"...we've been really keen to impress upon the UK Government the importance of developing that suite of guidance in partnership with the Welsh Government. But no early drafts have been shared with us to provide us with any kind of insight into how they envisage the resulting regime looking, which is obviously causing us concern, as the UK Government is essentially asking the devolved Governments to sign a blank cheque, with no explicit provision for further opportunity to scrutinise or input into that detail as it's being developed."

68. Dywedodd y Gweinidog y dylid ymgynghori ar sail wirioneddol golegol, gyda'r gyfundrefn wedi'i datblygu o'r gwaelod i fyny ar sail ailadroddol gyda'r holl bartion dan sylw. Dywedodd y bu, hyd yn hyn, ychydig iawn o gyfranogiad i ni wrth greu'r gyfundrefn arfaethedig, gyda therfynau amser i drafod drafftiau yn rhy dynn i roi ymateb rhesymegol ac ystyriol, neu fod y drafftiau a rannwyd wedi bod mor amwys ac mor gyffredinol i roi'r ddirnadaeth leiaf posibl ar ddatblygiad y polisi. Dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn ceisio proses datblygu polisi sy'n debyg i fframwaith gyda'r llywodraethau datganoledig, gyda gofyniad clir yr adlewyrchir hyn ar wyneb y Bil.

69. Nododd y Gweinidog fod y diffyg gofynion cydsynio neu ymgynghori ar sut y byddai pwerau gwneud rheoliadau'r Ysgrifennydd Gwladol yn cael eu harfer yn y Bil yn fwch ac yn wagle gwirionedd yr oedd yn gobeithio y byddai'n cael sylw wrth i'r Bil fynd rhagddo.

Effaith y Bil ar Gymru - Cymorth i Ardaloedd Difreintiedig

70. Mae asesiad effaith Llywodraeth y DU yn rhagweld y bydd y Bil yn cael effaith ranbarthol gadarnhaol ar y cyfan er, gan fod angen penderfynu ar fanylion y polisi o hyd, y bydd angen rhagor o waith dadansoddi. Mae nodiadau esboniadol y Bil yn nodi y gall y canllawiau sydd i'w datblygu ar gymhwyso'r Bil yn ymarferol nodi sut y gellir defnyddio cymorthdaliadau i gefnogi ardaloedd difreintiedig, ac y gallant ddiffinio pa ardaloedd a fyddai'n gymwys i gael cymorth yn y modd hwn.

- 71.** Dywedodd Paul Scully AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Llywodraeth y DU dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, ar 22 Medi nad mapiau ardal a gynorthwyr yw'r unig ffordd o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau, ac y gall map fod yn offeryn heb fin, gan ei gwneud yn anodd mynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac anfantais o fewn rhanbarthau.
- 72.** Mewn datganiad ysgrifenedig ar 14 Gorffennaf, nododd Gweinidogion Cymru bryderon nad yw'r Bil yn cynnwys mecanweithiau i gefnogi ardaloedd difreintiedig yn y DU i gystadlu ag ardaloedd mwy llewyrchus. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog pa ddadansoddiad roedd Llywodraeth Cymru wedi'i gynnal o effeithiau posibl y Bil ar Gymru, a chanfyddiadau unrhyw ddadansoddiad, a sut yr hoffai i gefnogaeth i ardaloedd difreintiedig gael ei chynnwys yn y Bil.
- 73.** Dywedodd y Gweinidog fod diffyg gwybodaeth yn ei gwneud yn anodd iawn gwneud dadansoddiad ond mai'r pryder gwirioneddol oedd y bydd yn golygu bod buddsoddiad yn cael ei dynnu oddi wrth y cymunedau y mae arnynt ei angen fwyaf. Cyfeiriodd y Gweinidog at gyfatebiaeth Merthyr yn cystadlu â Mayfair, yn niffyg mecanwaith yn y Bil i gyfeirio buddsoddiad i'r ardaloedd dan anfantais - h.y. rhywbeth sy'n cyfateb i'r canllawiau cymorth rhanbarthol neu i'r map ardaloedd â chymorth yn yng nghyfundrefn cymorth gwladwriaethol yr UE.
- 74.** Dywedodd y Gweinidog fod y mecanweithiau blaenorol hyn yn hollol allweddol i helpu i wrthbwyso anfanteision strwythurol mewn rhanbarthau mwy difreintiedig yng Nghymru:
- "The absence of this approach risks a concentration now of prosperity in the wealthier parts of the UK, pulling investment away from the areas that need it most and actually, it's the polar opposite of levelling up."*
- 75.** Cydnabu'r Gweinidog y gellid dadlau y gallai'r gyfundrefn rheoli cymorthdaliadau newydd arfaethedig ganiatáu mwy o hyblygrwydd i Lywodraeth Cymru gefnogi datblygiad economaidd na'r hyn oedd yn bosibl dan reolau cymorth gwladwriaethol yr UE, ond nad yw bod hyn yn glir o bell ffordd, o gofio'r ansicrwydd presennol ynghylch sut yn union y byddai'r gyfundrefn newydd yn gweithredu'n ymarferol.
- 76.** Ychwanegodd y Gweinidog hynny na fyddai cyfundrefn hyblycach o reidrwydd yn cyfateb i effaith gadarnhaol ar fuddsoddiad Cymru.
- 77.** Hefyd, tynnodd y Gweinidog sylw bod y gyfundrefn arfaethedig yn cyflwyno ansicrwydd cyfreithiol: er bod cymorth y darparwyd ar ei gyfer dan hen gyfundrefn yr UE yn fwy cyfyngol, ei bod o leiaf yn rhoi sicrwydd cyfreithiol i awdurdodau dyfarnu a buddiolwyr a oedd am fuddsoddi. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn ymddangos y bydd y gyfundrefn newydd yn golygu bod awdurdodau dyfarnu yn gwneud penderfyniadau dyfarnu, ac y gallai hynny arwain at ansicrwydd i fuddiolwyr a golygu y byddant yn buddsoddi rywle arall.

78. Dychwelodd y Gweinidog at y pwynt, er y gallai rhai o'r materion hyn gael eu hegluro mewn rheoliadau a chanllawiau, nad oedd gan Weinidogion Cymru rôl ffurfiol wrth ddatblygu: *"really key pieces of the jigsaw to ensure that investment can be targeted. Because at the moment, it can't be targeted, and that is the big concern—that we no longer have those assisted area maps."* Heb y manylder angenrheidiol, dywedodd y Gweinidog nad oes consensws ar yr hyn y bydd hyn yn ei olygu'n ymarferol.

79. Mae Llywodraeth Cymru am i fanylder y cymorth ar gyfer ardaloedd difreintiedig gael ei ddatblygu ar sail bedrochrog gan bedair Llywodraeth y DU, gyda'r Gweinidog yn nodi y gall pob un gynnig dirnadaethau unigryw:

...from our perspective in Wales we have a huge breadth of experience in terms of managing the dispersal of EU structural funds and the use of EU regional aid, and that could really help avoid any pitfalls for the future and help ensure that the resulting regime is fit for purpose for the whole of the UK."

Pwerau i ddarparu cymorthdaliadau mewn 'amgylchiadau eithriadol'

80. Mae cymalau 43 a 44 o'r Bil yn amlinellu'r paramedrau y gellir darparu cymorthdaliadau oddi tanynt ar gyfer trychinebau naturiol, amgylchiadau eithriadol, ac argyfyngau economaidd cenedlaethol neu fyd-eang. Yn y ddau achos, mae'n dibynnu ar yr Ysgrifennydd Gwladol i ddatgan bod yr eithriad yn gymwys i ddigwyddiad drwy osod hysbysiad a gyhoeddir yn Senedd y DU. Fel y nodwyd o'r blaen, hoffai Llywodraeth Cymru i'r pŵer hwn gael ei ymestyn i Weinidogion Cymru, neu o leiaf i'r Bil ganiatáu i Weinidogion Cymru ofyn i Lywodraeth y DU wneud datganiad ac y cânt herio os gwrthodir gwneud hynny.

Pwerau i Weinidogion Cymru wneud atgyfeiriadau

81. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn galw i Weinidogion Cymru gael pwerau i wneud atgyfeiriadau cymorthdaliadau i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, sef pŵer sydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros BEIS o dan gymal 60(4) o'r Bil. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod hyn wedi'i godi'n rheolaidd, gyda Paul Scully, Gweinidog BEIS, ac mewn cyfarfodydd rhwng swyddogion, ond heb lwyddiant - ymateb Llywodraeth y DU oedd bod rheoleiddio cymorthdaliadau'n fater a gedwir yn ôl ac mai cymhwysedd Llywodraeth y DU yn unig ydyw.

82. Esboniodd y Gweinidog mai gwrthddadl Llywodraeth Cymru oedd bod rheoleiddio cymorthdaliadau â goblygiadau enfawr i nifer fawr o feysydd polisi datganoledig, a dyna pam y

mae'n rhaid i Weinidogion datganoledig gael parch cydradd o ran atgyfeiriadau; fel arall, mae'r Bil wir yn peryglu tansellio datganoli.

83. Tynnodd y Gweinidog sylw, cyn i Ddeddf Marchnad Fewnol y DU ddod i rym, fod Llywodraeth Cymru wedi dadlau'n gryf bod rheoli cymorthdaliadau neu gymorth gwladwriaethol yn fater datganoledig, ac y dylid datblygu polisi'n golegol drwy'r rhaglen fframweithiau a oedd yn cael ei datblygu. Dywedodd y canlynol:

"it's certainly not too late to develop that [collegiate way of working], but it will require some movement, I think, on the part of the UK Government."

Sylwadau ar yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau - parch cydradd

84. Mae cymal 68 yn ei gwneud yn ofynnol sefydlu Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau yn yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, ac mae cymal 69 yn galluogi'r uned i wneud atgyfeiriad i Gadeirydd yr ACM ar gyfer cyfansoddiad grŵp panel ACM. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn hanfodol i'r Uned gynrychioli'r DU gyfan, ac i'r Bil greu rôl i'r llywodraethau datganoledig mewn penodiadau. Dywedodd y Gweinidog y byddai'r ffaith y byddai hyn yn dod â pharch cydradd i'r broses benodi ar gyfer Swyddfa'r Farchnad Fewnol yn ychwanegu pwysau at y ddadl.

Ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar ganllawiau o dan gymal 79(5) o'r Bil

85. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn pwysleisio bod Llywodraeth Cymru yn credu y dylai ymgysylltu â Gweinidogion datganoledig fod yn orfodol mewn perthynas â chanllawiau a wneir o dan gymal 79(5) o'r Bil.

86. Tynnodd y Gweinidog sylw at y ffaith bod cymal 79(5) o'r Bil, fel y'i geiriwyd ar hyn o bryd, yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol, yn y bôn, drefnu holl waith o ddydd i ddydd y gyfundrefn fel y bo'n briodol yn ei farn ef, heb ofynion i ymgynghori heblaw am ofyniad paragraff 5 i ymgynghori â phersonau sy'n briodol ym marn yr Ysgrifennydd Gwladol. Esboniodd fod angen ymgysylltu'n briodol o gofio bod datblygiad economaidd wedi'i ddatganoli ac y gall newidiadau i'r canllawiau effeithio ar gynlluniau datblygu economaidd neu ddull gweithredu.

Goblygiadau cyfansoddiadol y Bil

87. Dadansoddodd George Peretz QC, arbenigwr cymorth gwladwriaethol, oblygiadau'r Bil Rheoli Cymorthdaliadau ar gyfer datganoli. Mae wedi dod i'r casgliad, er y bydd y gyfundrefn rheoli cymorthdaliadau o dan y Bil yn fwy caniataol na chyfundrefn yr UE, ei fod yn rhoi pŵer

sylweddol i Lywodraeth y DU osod yr agenda rheoli cymorthdaliadau ac yn rhoi'r gallu i graffu ar gymorthdaliadau gan lywodraethau datganoledig nad yw'n gyfatebol.

88. Mae George Peretz QC yn nodi nifer o rannau o'r Bil (gan gynnwys cymalau 70(7)(b) a 79) lle y dyfernir pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol, ond ni roddir y rhain i'r gweinyddiaethau datganoledig ac nid oes gofyniad i ymgynghori â hwy y mae ef o'r farn yn eu bod yn anghytbwys iawn. Mae'n nodi bod Atodlen 3 i'r Bil yn llawn materion cyfansoddiadol pwysig gan y bydd yn caniatáu ar gyfer heriau i gymorthdaliadau y mae deddfwriaeth sylfaenol ddatganoledig yn darparu ar eu cyfer, er bod Deddfau Seneddol wedi'u heithrio rhag heriau o'r fath.

89. Cytunodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol â'r casgliad hwn ynghylch Atodlen 3 i'r Bil:

"...particularly in relation to the apparent departure from the general position that the judicial review of devolved legislation is not generally possible on the common law grounds of irrationality and reasonableness or arbitrariness.

"Notably, this departure only appears to apply to devolved legislation, not UK Government legislation, and I think the UK Government themselves have acknowledged that Schedule 3 does require an LCM. Schedule 3 reflects the general sense that the Bill is asymmetrical in terms of application and the allocation of powers and functions. It does unfairly disadvantage devolved Governments in comparison with the UK Government, and adversely impacts on the devolved area of economic development."

Goblygiadau ariannol

90. Mae paragraff 55 o Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru hefyd yn tynnu sylw at ddiffyg eglurder ynghylch goblygiadau ariannol y Bil i Gymru. Mae'n nodi fel a ganlyn:

"Nid yw'n glir ar wyneb y Bil a fydd goblygiadau ariannol uniongyrchol i Lywodraeth Cymru neu i'r Senedd, yn deillio o'r pwerau dan y Bil."

Barn y Pwyllgor

91. Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol am fod yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor i drafod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Rheoli Cymorthdaliadau. Mae'r Pwyllgor wedi nodi pryderon Gweinidogion Cymru am y Bil fel y'i drafftiodd, a rhwystredigaethau ynghylch y dull o ymgynghori a datblygu cyfundrefn newydd a

fydd yn effeithio ar feysydd polisi datganoledig sylweddol yng Nghymru ac ar draws y DU. Mae'r Aelodau'n cydymdeimlo â'r materion parch cydradd a godwyd, yn enwedig o gofio'r anghysondeb â phroses y Fframwaith a fabwysiadwyd i reoli meysydd datblygu polisi sylweddol ledled y DU sy'n ofynnol o ganlyniad i adael yr UE.

92. Nid oes digon o amser i'r Pwyllgor wneud rhagor o waith craffu ar y Bil a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyn y terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad, sef 4 Tachwedd.

Beth bynnag, mae'n ymddangos nad oes digon o fanylder ar gael ar hyn o bryd ynglŷn â sut y gallai'r gyfundrefn cymorthdaliadau newydd arfaethedig weithio'n ymarferol. Mae hyn yn atal unrhyw asesiad ystyrlon o'r effaith bosibl ar Gymru.

93. Felly, mae'r Pwyllgor wedi cytuno i gyhoeddi ei adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol erbyn y terfyn amser, sef 4 Tachwedd, a bennodd Pwyllgor Busnes y Senedd. Bydd y Pwyllgor hefyd yn ysgrifennu at yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, er mwyn tynnu sylw Gweinidogion y DU at y materion a godwyd yn yr adroddiad hwn. Bydd copi o'r llythyr hwnnw'n cael ei anfon at Gadeirydd Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, sy'n cynnal ymchwiliad ynghylch twf economaidd ar ôl y pandemig: polisi cymorth gwladwriaethol a chystadleuaeth ar ôl Brexit, ac i'r Pwyllgor Biliau Cyhoeddus y gofynnwyd iddo graffu ar bob llinell o'r Bil yn Nhŷ'r Cyffredin, a eisteddodd gyntaf ar 26 Hydref.